# Bwrdd Diogelu Gwent –

# Cynllun Strategol 2023-2026 (Blwyddyn 3)

# CYNNWYS


CYFLWYNIAD TUD. 3

BETH YW DIOGELU? TUD. 4

SUT MAE'R BYRDDAU DIOGELU RHANBARTHOL YN GWEITHIO? TUD. 5

PWY YW AELODAU'R BWRDD? TUD. 8

BETH YW BLAENORIAETHAU STRATEGOL Y BYRDDAU? TUD. 10

CRYNODEB O'N BLAENORIAETHAU STRATEGOL / MEYSYDD FFOCWS A SUT RYDYM YN BWRIADU EU CYRRAEDD TUD. 14

FAINT YDYM NI'N MYND I'W WARIO YN Y FLWYDDYN NESAF? TUD. 22

CYDWEITHIO TUD. 22

YMGYSYLLTU A CHYFRANOGIAD TUD. 25

GWYBODAETH GYSWLLT A CHYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL TUD. 27

# CYFLWYNIAD

Mae rhanbarth Gwent yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Torfaen a Chasnewydd, gyda phoblogaeth o 587,700. Ceir amrywiaeth yn nemograffeg y rhanbarth, o ddinas Casnewydd i rannau mwy gwledig o Sir Fynwy ac i gymunedau cymoedd Blaenau Gwent. Mae'r partneriaid diogelu rhanbarthol yn cynnal Bwrdd Diogelu Gwent ar y Cyd hunanlywodraethol, sy'n cynnwys Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru (SEWSCB) a Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent gyfan (GwASB), i sicrhau blaenoriaeth briodol a phenodedig i bob grŵp poblogaeth.

Amlinella cynllun strategol Bwrdd Diogelu Gwent ei flaenoriaethau strategol cwbl gyson dros gyfnod o dair blynedd, sy'n ymgorffori gwaith Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent gyfan (GwASB) a Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru (SEWSCB). Nid oes newid i'r meysydd ffocws blaenoriaethol ar y cyd, wrth i ni ddechrau Blwyddyn 3 y cynllun hwn. Bydd cynnydd y Bwrdd yn erbyn y meysydd ffocws blaenoriaethol hyn yn cael ei adolygu a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2025, fel rhan o adroddiad blynyddol y Bwrdd. Mae cyfnod tair blynedd Bwrdd Diogelu Gwent yn galluogi ei bartneriaid Bwrdd i gael mwy o effaith ar ei flaenoriaethau yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn parhau i gydnabod, o ganlyniad i themâu a heriau diogelu sy'n dod i'r amlwg yn ystod pob blwyddyn, y gallai rhai meysydd ffocws â blaenoriaeth ddod yn fwy helaeth, a bod angen sylw mwy targedig yn y blynyddoedd i ddod. Er enghraifft, nododd y Sesiwn Datblygu Bwrdd ddiwethaf bwysigrwydd rhagor o gyfleoedd rheolaidd i hyrwyddo perfformiad da ac i ddathlu arferion cadarnhaol ein hymarferwyr gweithgar. Yn ogystal, roedd angen blaenoriaethu  gweithredu'r Safonau a Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae Aelodau Bwrdd yn parhau i gydnabod arwyddocâd heriau ariannol di-baid i deuluoedd, staff a gwasanaethau o fewn ein cymunedau, a gall hyn hefyd fod yn fwy dwys yn achos y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae partneriaid Bwrdd Diogelu Gwent yn parhau i ddefnyddio cryfder cydweithio a gweithio mewn partneriaeth er mwyn parhau i wasanaethu dinasyddion a chymunedau amrywiol y rhanbarth.

Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn gwerthfawrogi ei sylfeini partneriaeth cryf a sefydlwyd yn y blynyddoedd blaenorol, i gyflenwi yn erbyn ei flaenoriaethau ac i barhau i gyflawni ei swyddogaethau craidd – sef, amddiffyn ac atal plant ac oedolion rhag profi niwed. Wrth i ni symud i Flwyddyn 3 ein cynllun strategol, rydym yn credu bod y deg maes ffocws blaenoriaethol yn galluogi Bwrdd Diogelu Gwent i barhau i fabwysiadu dull pob oed o ddiogelu pobl wrth ymdrin â phlant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Mae Cadeiryddion y ddau Fwrdd yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn Bennaeth Gwasanaethau Plant yng Ngwent. Cânt eu cefnogi'n frwd gan Is-gadeirydd sy'n Bennaeth Diogelu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.  Datblygwyd y cynllun hwn ac mae'n cael ei lywio gan y gwaith caled a wnaed gan aelodau'r Bwrdd ar draws ein partneriaeth, aelodau is-grwpiau, grwpiau gorchwyl a gorffen a fforymau rhwydwaith diogelu, sy'n ymdrechu i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngwent.



Jane Rodgers
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Sir Fynwy



Gareth Jenkins
Pennaeth Gwasanaethau Plant
Caerffili

# BETH YW DIOGELU?

Mae “Canllawiau Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl” Llywodraeth Cymru Cyfrol 1 yn nodi:

## Amcanion Bwrdd Diogelu Plant yw:

- Diogelu plant yn ei ardal sy'n profi, neu mewn perygl o brofi, camdriniaeth, esgeulustod, neu fathau eraill o niwed
- Atal plant o fewn ei ardal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed.

## Amcanion Bwrdd Diogelu Oedolion yw:

a) Diogelu oedolion o fewn ei ardal sydd –

   **i.** Ag anghenion gofal a chymorth (p’un a yw awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un o’r anghenion hynny ai peidio), ac sydd
   **ii.** Yn profi, neu mewn perygl o brofi, camdriniaeth neu esgeulustod.

b) Atal yr oedolion hynny o fewn ei ardal a grybwyllir ym mharagraff (a)(i) rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Er mwyn cyflawni’r amcanion hyn, mae’r ddau Fwrdd wedi cytuno ar ddatganiad gweledigaeth ar y cyd, sy’n sicrhau, pan fyddwn yn gwneud busnes, ein bod yn glir ynghylch ein pwrpas a’n nodau:

## Gweledigaeth Bwrdd Diogelu Gwent ar y Cyd yw:


**Sicrhau bod yr holl blant ac oedolion yn ardal Gwent yn cael eu diogelu.**

Rôl Bwrdd Diogelu Gwent yw gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer diogelu a chyflawni swyddogaethau craidd mewn perthynas â diogelu amlasiantaethol.

Mae’r Bwrdd yn cyflawni’r swyddogaethau hyn o ddydd i ddydd, trwy gyfeiriad polisi, monitro effeithiolrwydd diogelu o fewn asiantaethau, comisiynu adolygiadau ymarfer a lledaenu dysgu i ymarferwyr i sicrhau bod diogelu yn uchel ar yr agenda ar bob lefel o’r gweithlu.

# SUT MAE'R BYRDDAU DIOGELU RHANBARTHOL YN GWEITHIO?

## Strwythur Strategol Bwrdd Diogelu Gwent



**Byrddau Diogelu Gwent**

Dangosir strwythur ar y cyd Bwrdd Diogelu Gwent a'r is-grwpiau uchod, sydd hefyd yn amlygu ein perthynas gref â'r Bwrdd rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Bydd Bwrdd Diogelu Gwent yn parhau i gydweithio â'r bartneriaeth VAWDASV ranbarthol, gan gynnig cymorth i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd i weithio ar y cyd.

Bydd y Bwrdd a'i is-grwpiau yn rhoi ystyriaeth dros y cyfnod hwn i ble y gallai fod cyfleoedd i gyfarfod yn rhithwir, ond hefyd wyneb yn wyneb, lle bo hynny'n ddiogel ac yn ymarferol. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i weithio'n rhithwir yn effeithlon wrth gyfarfod yn rheolaidd ar draws y rhanbarth ond hefyd i gydnabod pryd y gellir cyflawni canlyniadau gwell trwy gyfarfod yn ddiogel, wyneb yn wyneb. Enghreifftiau o hyn yw Digwyddiadau Dysgu Adolygu Ymarfer, sesiynau Datblygu'r Bwrdd, digwyddiadau Wythnos Genedlaethol Diogelu a gweithdai is-grŵp.

Nodir yn glir mewn statud swyddogaethau a gweithdrefnau Byrddau Diogelu Rhanbarthol, ynghyd â'r Canllawiau Cydweithio cysylltiedig, ac mae'r strwythur uchod yn ein galluogi i gyflawni'r swyddogaethau hyn yn bennaf drwy waith grwpiau unigol, yn cael eu hategu gan baneli adolygu a grwpiau gorchwyl a gorffen.

**Grŵp Cynllunio Busnes**

Mae'r Grŵp Cynllunio Busnes yn cefnogi Bwrdd Diogelu Gwent trwy gydlynu datblygiad cynlluniau strategol ac adroddiadau sy'n cofnodi effeithiolrwydd arferion diogelu ar draws y rhanbarth. Mae'r uwch is-grŵp hwn yn goruchwylio cynnydd ac allbynnau'r cynlluniau gweithredu perthnasol, gan yrru'r agenda diogelu strategol yn ei blaen, yng Ngwent. Yn ogystal, mae'r grŵp yn hwyluso llif cyfathrebu rhydd rhwng grwpiau lleol, is-grwpiau a Byrddau.

**Grŵp Adolygu Achos**

Fel uwch is-grŵp arall, mae'r Grŵp Adolygu Achos yn cefnogi Bwrdd Diogelu Gwent ar y Cyd drwy gyflawni'r swyddogaeth statudol i ystyried yr holl atgyfeiriadau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion. Ers mis Hydref 2024, mae gan y Grŵp Adolygu Achosion gyfrifoldebau ychwanegol ar gyfer cychwyn pob Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) a fydd yn disodli Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion. Mae hyn yn cynnwys Adolygiadau Lladdiadau Domestig, Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl ac Adolygiadau Lladdiadau ag Arf Ymosodol, unwaith y bydd gwerthusiadau peilot wedi'u cwblhau. Mae'r Grŵp Adolygu Achosion hefyd yn ystyried adolygiadau thematig a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol, fel y bo'n briodol. Mae'r grŵp yn sicrhau bod yr holl adolygiadau yn cael yr adnoddau priodol a bod cynlluniau gweithredu strategol a gweithredol yn cael eu cydlynu a'u rheoli'n effeithiol.

**Is-grŵp Protocolau a Gweithdrefnau**

Mae’r Is-grŵp Protocolau a Gweithdrefnau yn cefnogi gwaith Bwrdd Diogelu Gwent wrth gyfrannu at ddatblygiad diogelu trwy atgyfnerthu a hyrwyddo arfer gorau mewn gwaith rhyngasiantaethol ar draws y rhanbarth. Cyflawnir hyn drwy reoli a chydlynu datblygiad ac adolygiad rheolaidd o ganllawiau, polisïau a phrotocolau sy’n berthnasol i ddiogelu pobl ar lefel ranbarthol. Trwy weithio gyda grwpiau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol eraill, mae'r is-grŵp hwn yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hymgorffori mewn ymarfer a bod y Bwrdd yn parhau i fod yn effro i fentrau, bylchau neu feysydd gwaith eraill yn y dyfodol.

**Is-grŵp Dysgu a Datblygu**

Mae'r Is-grŵp Dysgu a Datblygu yn sicrhau bod asiantaethau sy'n aelodau o'r Bwrdd yn darparu mynediad i hyfforddiant priodol ar amddiffyn plant ac oedolion i'w staff ac yn cefnogi'r asiantaethau hynny sy'n aelodau drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi diogelu amlasiantaethol, trwy swyddogaeth ei Grŵp Cyflenwi. Blaenoriaeth allweddol dros y flwyddyn i ddod fydd parhau i weithredu’r Safonau a’r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol ar draws y rhanbarth.

**Is-grŵp Sicrhau Ansawdd**

Mae'r is-grŵp Sicrhau Ansawdd yn cefnogi datblygu a gweithredu fframwaith rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd; comisiynu archwiliadau achos i feysydd blaenoriaeth strategol fel y nodwyd gan y Bwrdd; a rhoi cynlluniau gweithredu ar waith sy'n deillio o Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl.

**Is-grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu**

Mae’r Is-grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu yn cefnogi Bwrdd Diogelu Gwent ar y Cyd drwy gyflawni’r swyddogaeth statudol i ymgysylltu/ ymgynghori â phobl, gan gynnwys plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, oedolion sy’n wynebu risg, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol, i godi ymwybyddiaeth o faterion diogelu ar draws y rhanbarth.

**Rhwydweithiau Diogelu Lleol**

Mae’r Rhwydweithiau Diogelu Lleol yn sicrhau cysylltedd rhwng y Bwrdd Diogelu strategol a gwaith ymarferwyr rheng flaen. Mae'r digwyddiadau sefydledig i ymarferwyr y Rhwydwaith Diogelu Lleol yn ein galluogi i hyrwyddo arferion a phrosesau gwaith llwyddiannus, a hyrwyddo diwylliant o ddysgu amlasiantaethol a rhagor o atebolrwydd am ddiogelu, i gynulleidfaoedd eang. Maent yn parhau i ysgogi llwyddiant blynyddol y Bwrdd yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu gan ddefnyddio eu cyrhaeddiad sylweddol.

# PWY YW AELODAU'R BWRDD?

### Aelodaeth

Mae aelodaeth pob Bwrdd fel a ganlyn:

## BWRDD DIOGELU PLANT DE-DDWYRAIN CYMRU

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd** / Pennaeth Gwasanaethau Plant | CBS Caerffili |
| Pediatregydd | BIPAB |
| Meddyg Dynodedig | BIPAB |
| Pennaeth Diogelu | BIPAB |
| Ymgynghorydd Arweiniol | BIPAB (Tîm Iechyd Cyhoeddus) |
| Cyfarwyddwr Cynorthwyol | Barnardo's |
| Rheolwr Gwasanaeth | CBS Blaenau Gwent |
| Pennaeth Gwasanaethau Plant | CBS Blaenau Gwent. |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg | CBS Blaenau Gwent |
| Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol | Cartrefi Cymunedol Bron Afon |
| Rheolwr Gwasanaeth | GTI Caerffili a Blaenau Gwent yn cynrychioli Tîm Troseddau Ieuenctid Gwent |
| Prif Swyddog Addysg/cynrychiolydd | CBS Caerffili |
| Uwch Gyfreithiwr, Gwasanaethau Cyfreithiol | CBS Caerffili |
| Rheolwr Gwasanaeth Diogelu | CBS Caerffili |
| Prif Swyddog Gweithredol | GAVO |
| Pennaeth Gweithrediadau | GDAS |
| Pennaeth PPU | Heddlu Gwent |
| Pennaeth PDU | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi |
| Pennaeth Gwasanaethau Plant | Cyngor Sir Fynwy |
| Rheolwr Gwasanaeth Diogelu | Cyngor Sir Fynwy |
| Rheolwr Tai a Chymunedau | Cyngor Sir Fynwy |
| Prif Swyddog Addysg | Cyngor Sir Fynwy |
| Aelod NISB | Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol |
| Gwasanaethau Plant, Rheolwr Gwasanaeth | CC Casnewydd |
| Prif Swyddog Addysg | CC Casnewydd |
| Pennaeth Gwasanaethau Plant | CC Casnewydd |
| Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu | Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent |
| Gweithiwr Proffesiynol Diogelu | Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Rheolwr Busnes | Uned Busnes Diogelu Rhanbarthol |
| Rheolwr Grŵp | CBS Torfaen |
| Pennaeth Gwasanaethau Plant | CBS Torfaen |
| Pennaeth Adnoddau a Chynllunio, Addysg | CBS Torfaen |
| Uwch Swyddog Gweithredol | Cynghrair Gwirfoddol Torfaen |

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Rhanbarthol | Tîm Rhanbarthol VAWDASV |
| Pennaeth Diogelu | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

## BWRDD DIOGELU OEDOLION GWENT GYFAN

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd** / Cyfarwyddwr AGC | Cyngor Sir Fynwy |
| **Is-gadeirydd /** Pennaeth Diogelu | BIPAB. |
| Ymgynghorydd Arweiniol | BIPAB (Tîm Iechyd Cyhoeddus) |
| Rheolwr Gwasanaeth | CBS Blaenau Gwent |
| Pennaeth Gwasanaethau Oedolion | CBS Blaenau Gwent. |
| Rheolwr Gwasanaeth Diogelu | CBS Caerffili |
| Pennaeth Gwasanaethau Oedolion | CBS Caerffili |
| Pennaeth Heneiddio Egnïol | Derwen Cymru (rhan o grŵp POBL) |
| Prif Swyddog Gweithredol | GAVO |
| Pennaeth Gweithrediadau | GDAS |
| Pennaeth PPU | Heddlu Gwent |
| Arweinydd Diogelu | Carchar E.M. Brynbuga |
| Pennaeth PDU | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi |
| Rheolwr Gwasanaeth Diogelu | Cyngor Sir Fynwy |
| Pennaeth Tai | Cyngor Sir Fynwy |
| Pennaeth Gwasanaethau Oedolion | Cyngor Sir Fynwy |
| Aelod NISB | Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol |
| Rheolwr Gwasanaeth | CC Casnewydd |
| Pennaeth Gwasanaethau Oedolion | CC Casnewydd |
| Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu | Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent |
| Gweithiwr Proffesiynol Diogelu | Tîm Diogelu Cenedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Rheolwr Busnes | Uned Busnes Diogelu Rhanbarthol |
| Pennaeth Addysg | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Rheolwr Grŵp | CBS Torfaen |
| Pennaeth Gwasanaethau Oedolion | CBS Torfaen |
| Ymgynghorydd Rhanbarthol | Tîm Rhanbarthol VAWDASV |
| Pennaeth Diogelu | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

# BETH YW BLAENORIAETHAU STRATEGOL Y BYRDDAU?

Ni fu newid i'r blaenoriaethau strategol ar gyfer Bwrdd Diogelu Gwent, fel rhan o'n hymrwymiad tair blynedd i amrywiaeth eang o feysydd ffocws blaenoriaethol o ran diogelu, sy'n berthnasol i'n rhanbarth, yn ein barn ni. Fel yr amlinellwyd eisoes, bydd cynnydd y Bwrdd yn erbyn y meysydd ffocws blaenoriaethol hyn yn cael ei adolygu a'i gyhoeddi fel rhan o adroddiad blynyddol y Bwrdd.

Mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi cynnal ei weledigaeth strategol gyffredinol a ategir gan dair blaenoriaeth strategol ar y cyd fel a ganlyn:

**Un Weledigaeth Gyffredinol ar y Cyd:**

Sicrhau bod plant ac oedolion, yng Ngwent, yn cael eu diogelu.

**Tair Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd:**

- Amddiffyn yn well y plant ac oedolion rhag esgeulustod, niwed corfforol, emosiynol, rhywiol ac ariannol.
- Amddiffyn yn well y plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio.
- Gwella a chynnal effeithiolrwydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Mae meysydd ffocws blaenoriaethol Bwrdd Diogelu Gwent wedi'u rhestru o dudalen 14 ymlaen. Adolygir y meysydd ffocws hyn trwy gydol y flwyddyn fel rhan o waith y cynllun gweithredu arferol, adborth rheolaidd gan ein his-grwpiau / Bwrdd a thrafodaethau yn Sesiwn Datblygu'r Bwrdd i adolygu gweithgarwch hyd yma. Eleni, fe wnaeth gadeiryddion Bwrdd Diogelu Gwent a chadeiryddion yr is-grwpiau gymryd rhan mewn Sesiwn Ddatblygu gyda chadeiryddion y Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Gwent a Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent. Y pwrpas oedd ystyried y bobl y maent yn eu gwasanaethu, unrhyw flaenoriaethau cyffredin a nodi cyfleoedd i gryfhau gwaith cydweithio. Mae'r dysgu o'r digwyddiad hwn wedi helpu nodi unrhyw themâu diogelu ehangach sy'n ymestyn ar draws ein byrddau partneriaeth rhanbarthol ar gyfer Blwyddyn 3 a thu hwnt.

Mae'r heriau economaidd sylweddol i ddinasyddion, cymunedau a gwasanaethau yn parhau i fod yn amlwg wrth i ni symud i Flwyddyn 3. Mae cyfyngiadau cyllidebol yn parhau i effeithio ar y ffordd y darperir gwasanaethau ar draws y bartneriaeth, tra bod anghenion y boblogaeth yn parhau i fod yn uchel. Mae hyn yn debygol o olygu bod risg na fydd pobl yn gallu cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt mewn modd amserol, gan arwain at gynnydd mewn pryderon diogelu i bob partner. Yn ogystal, mae risg y bydd llai o gyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynharach gyda mwy o risg o bryderon gofal a diogelu mwy cymhleth a heriol, sy'n dod i'r amlwg yn ddiweddarach.

Er gwaethaf yr heriau parhaus a disgwyliedig hyn, mae partneriaid Bwrdd Diogelu Gwent yn parhau i sicrhau bod pryderon yn cael eu rhannu a'u trafod ac i weithio'n ddiwyd i sicrhau bod gwasanaethau diogelu hanfodol yn cael eu blaenoriaethu i ddarparu cymorth, gofal ac amddiffyniad i blant ac oedolion yng Ngwent.

Fel yr amlinellwyd uchod, mae ein cynllun tair blynedd yn amlinellu nifer o feysydd ffocws blaenoriaeth allweddol, y mae rhai ohonynt yn cael eu helaethu ac yn cael ffocws penodol ym mlwyddyn olaf y cynllun hwn. Y cyntaf o'r rhain yw ***diogelu trosiannol*** sy'n ddull o ddiogelu sy'n rhychwantu ffiniau sy'n berthnasol i wasanaethau i blant, gwasanaethau i oedolion a phob asiantaeth bartner. Mae'n cydnabod nad yw niwed a'i effeithiau yn dod i ben yn sydyn pan fydd person ifanc yn troi'n 18; gall yr ymennydd barhau i ddatblygu tan ganol yr 20au, ond gall cymorth ddod i ben yn 18. Felly, mae diogelu trosiannol yn anelu at sicrhau bod y cymorth yn parhau, er mwyn lleihau'r risgiau i blant hŷn neu oedolion ifanc sy'n gysylltiedig â cham-drin parhaus, esgeulustod ac, yn arbennig, camfanteisio. Mae hyn yn cydnabod nad yw oedran cronolegol bob amser yn ddangosydd o allu person i weithredu'n dda ac aros yn ddiogel. Mae diogelu trosiannol yn cynnwys dull mwy hyblyg ar draws yr holl wasanaethau, gan ganiatáu dull wedi'i deilwra, er ei fod yn dal o fewn y fframwaith cyfreithiol perthnasol sy'n gysylltiedig ag oedran.

Yn ystod y tair blynedd, bwriad y Bwrdd yw symud tuag at ddatblygu dull mwy trosiannol o gynorthwyo a diogelu pobl ifanc wrth iddynt bontio i fod yn oedolion. Rydym yn parhau i gefnogi'r arloesedd sy'n digwydd yn un o'n hardaloedd Awdurdodau Lleol i brofi dull newydd o weithio gyda phlant wrth iddynt ddod yn oedolion ifanc. Bydd hyn yn ein galluogi i ddysgu a rhannu gwersi sydd wedi'u profi'n dda ar draws ein rhanbarth i sicrhau bod ymarferwyr yn teimlo eu bod wedi'u paratoi i nodi ac ymateb i anghenion cymhleth pobl ifanc sy'n pontio i fod yn oedolion.

Yng ngoleuni'r heriau niferus sydd wedi dod i'r amlwg yn ein cymunedau dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw'n syndod bod ***iechyd meddwl*** yn parhau i fod yn flaenoriaeth wrth i ni symud i flwyddyn olaf ein cynllun strategol. Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn cydnabod bod effeithiau'r pandemig a'r heriau economaidd presennol yn debygol o fod wedi cael effaith sylweddol a hirhoedlog ar blant, oedolion a theuluoedd. Rydym yn cydnabod, yn sgil ein gwaith yn cefnogi partneriaid yn syth ar ôl digwyddiadau critigol ac o'n gwaith adolygu ymarfer thematig, bod heriau iechyd meddwl yn parhau i fod yn gyffredin iawn yn ein cymunedau.

Enghraifft arall o faes ffocws i'r Bwrdd yw ***llais/ cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth***. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd Diogelu i sicrhau bod diogelu yn canolbwyntio ar yr unigolyn gyda'r nod o ymgysylltu â'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn sy'n wynebu risg ar bob cam o'r broses ddiogelu. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i adeiladu ar gysylltiadau presennol â phartneriaid ledled y rhanbarth, gan barhau â'n gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd a datblygu podlediad. Rydym hefyd yn bwriadu dadansoddi ymatebion arolwg defnyddwyr y gwasanaeth i nodi themâu allweddol ar gyfer gwell gwasanaethau i ddinasyddion yn ogystal â deall profiadau dinasyddion o brosesau amddiffyn plant.

Rydym yn parhau i gydnabod pwysigrwydd ***gwytnwch y gweithlu*** fel ffactor allweddol ym mhob un o'r ffrydiau gwaith yr ydym yn eu blaenoriaethu. Mae'r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi dangos yr heriau sylweddol a brofwyd gan asiantaethau partner ein Bwrdd mewn perthynas â chapasiti staff. Rydym yn parhau i weld y pwysau sylweddol y mae partneriaid yn ei brofi o ran recriwtio a chadw staff, ar draws pob sector. Mae'r Bwrdd Diogelu o'r farn bod yr heriau hyn o ran adnoddau a llesiant yn arwyddocaol o safbwynt gallu partneriaid i gynnal trefniadau diogelu effeithiol. Yn ogystal, gall yr heriau hyn o ran y gweithlu effeithio ar iechyd meddwl a lles ymarferwyr sy'n ceisio ymdopi yn yr amgylchiadau hyn. Felly, mae ein ffocws ar wytnwch yn ymestyn i dimau presennol, a all fod yn gweithredu o dan drefniadau adnoddau heriol iawn, ac mae hyn yn cyfrannu at ein ffordd o feddwl wrth i ni symud ymlaen. Mae straen pellach yn parhau i gael ei gydnabod pan fo gan bartneriaid weithluoedd cymharol newydd, gyda llawer yn bobl newydd gymhwyso a llai profiadol, a all ychwanegu at yr heriau gan gynnwys cymhwysedd a hyder staff.

**Gweithredu'r Blaenoriaethau Strategol**

Cefnogir y gwaith o gyflenwi'r blaenoriaethau strategol a nodir yn y ddogfen hon gan gynllun gweithredu mewnol, a ddatblygwyd i nodi pob gweithgaredd penodol, canlyniadau dymunol, pwy fydd yn cymryd rhan, a nodi amserlenni o un flwyddyn i'r llall, gan alluogi canolbwyntio ar themâu blaenoriaeth penodol. Caiff y cynllun gweithredu ei adolygu ymhellach i ddal datblygiadau drwy gydol pob blwyddyn ac i nodi gweithgareddau a ffrydiau gwaith y dyfodol. Mae hyn yn galluogi mwy o hyblygrwydd ac ymatebolrwydd dros y cyfnod hwn o 3 blynedd, os bydd angen i ni gynnwys gweithgareddau ychwanegol i gyflawni yn erbyn blaenoriaeth benodol.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod cynlluniau gwaith manwl yn cael eu cynhyrchu ar gyfer is-grwpiau, a'u bod yn eiddo iddynt, a bydd y rhain yn parhau i fod yn sail i'n fframwaith adrodd trwy ein Hadroddiad Blynyddol. Bydd y cynlluniau gwaith hyn yn

parhau i gynnwys camau gweithredu manwl a byddant yn olrhain cynnydd bob un o'r grwpiau, gan ein galluogi i feintioli'r gwaith wrth iddo gael ei gwblhau a chaniatáu proses adrodd 'ddoethach'.

Bydd ein tabl cryno, isod, o flaenoriaethau strategol a meysydd ffocws cysylltiedig yn parhau i fod yn offeryn cyfeirio i ni, tra byddwn hefyd yn ystyried pa feysydd y gellir eu hehangu o themâu diogelu newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg.

# CRYNODEB O'N BLAENORIAETHAU STRATEGOL / MEYSYDD FFOCWS A SUT RYDYM YN BWRIADU EU CYRRAEDD

## Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd (JSP) 1 – Diogelu plant ac oedolion yn well rhag esgeulustod, niwed corfforol, emosiynol, rhywiol ac ariannol.

| Prif ffocws | Beth ydym eisiau ei gyflawni? | Sut allwn ni gyflawni hyn? |
|---|---|---|
| **JSP 1.1 Cam-drin Plant yn Rhywiol** | • Darparu ymateb rhanbarthol effeithiol i ganfod, atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol ar-lein ac all-lein. Sicrhau cydweithrediad aml-asiantaeth pwrpasol, amserol ar gyfer cydlynu a gweithredu gwelliannau rhanbarthol.<br><br>• Sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol yn cael eu hysbysu'n llawn o waith ymchwil cyfredol a datblygiadau cenedlaethol mewn perthynas â Cham-drin Plant yn Rhywiol, gan gynnwys ymatebion Llywodraeth Cymru i'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol | • Mae grŵp strategol, aml-asiantaeth yn darparu cefnogaeth gyson i'r gwaith rhanbarthol sydd ei angen i adolygu neu wella gwasanaethau o ran nodi, atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.<br><br>• Mae'r Bwrdd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ac yn monitro themâu allweddol sy'n deillio o waith archwilio ansoddol a thueddiadau data rhanbarthol meintiol, mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol.<br><br>• Gweithredir ymgyrch codi ymwybyddiaeth effeithiol a chyson ar draws y rhanbarth fel ymateb i'r cynllun gweithredu cenedlaethol sydd ar y gweill, i atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.<br><br>• Nodi a hyrwyddo cyfleoedd i ymarferwyr gael hyfforddiant cam-drin plant yn rhywiol. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol. |

| | | |
|---|---|---|
| **JSP 1.2 Esgeulustod** | • Sicrhau bod esgeulustod yn parhau i gael ei gydnabod, ac yr ymatebir iddo fel pryder diogelu, gyda chydnabyddiaeth arbennig o'r effaith y mae'r argyfwng costau byw yn debygol o'i chael, o gofio'r cysylltiad rhwng amgylchiadau cymdeithasol-economaidd teuluoedd a'r tebygolrwydd y byddant yn profi camdriniaeth neu esgeulustod.<br><br>• Cefnogi ymarferwyr i ddeall mathau o esgeulustod a'u canlyniadau, a chael eu harfogi i weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu hesgeuluso neu sy'n profi esgeulustod. Dylai hyn gynnwys hunan-esgeuluso. | • Mae cwrs hyfforddi aml-asiantaeth ar esgeuluso, sy'n cydymffurfio â'r Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol, yn cael ei ddarparu'n rheolaidd i wella dealltwriaeth ymhlith yr holl weithwyr proffesiynol wrth weithio gyda'r math penodol hwn o niwed.<br><br>• Mae'r protocol esgeulustod rhanbarthol a'r pecyn cymorth yn cael eu hadnewyddu a'u llywio gan Weithdrefnau Diogelu Cymru, ac mae'n ategu'r hyfforddiant rhanbarthol ar esgeuluso; mae ar gael i ymarferwyr ei ddefnyddio.<br><br>• Gweithredir y canllawiau hunan-esgeuluso cenedlaethol yng Ngwent a rhoddir ystyriaeth briodol i ddatblygu adnoddau rhanbarthol atodol.<br><br>• Mae'r Bwrdd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ac yn monitro themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o dueddiadau data rhanbarthol meintiol, mewn perthynas ag esgeulustod plant ac oedolion. |
| **JSP 1.3 Iechyd Meddwl** | • Cefnogi ymarferwyr i deimlo eu bod wedi'u harfogi i weithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg o syniadaeth hunanladdiad a hunan-niwed, neu sy'n cael profiadau ohonynt.<br><br>• Gweithio mewn partneriaeth ag arweinwyr rhanbarthol ar atal hunanladdiad a hunan-niwed i nodi cyfleoedd i wella ymarfer, prosesau neu | • Mwy o gyfleoedd i ddeall yn well pa faterion penodol sy'n effeithio ar iechyd meddwl a llesiant plant, pobl ifanc ac oedolion ar hyn o bryd.<br><br>• Plant, pobl ifanc ac oedolion yn fwy gwybodus am faterion a allai effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant. |

| | | |
|---|---|---|
| | wasanaethau mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant.<br><br>• Codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol i ddeall natur y niwed hwn ac i allu adnabod yr arwyddion ac ymateb yn briodol, gyda chydnabyddiaeth arbennig o’r effaith y mae amddifadedd cynyddol, o ganlyniad i’r argyfwng costau byw, yn debygol o’i chael ar y maes ffocws hwn. | • Gwell dealltwriaeth o hunan-niwed a hunanladdiad ar draws gweithlu aml-asiantaeth. |
| **JSP 1.4 Cam-drin domestig teulu cyfan** | • Gwella ymwybyddiaeth o ddefnyddio dull teulu cyfan i nodi, atal ac ymateb i bryderon diogelu sy'n ymwneud â cham-drin domestig.<br><br>• Cefnogi ymarferwyr i deimlo eu bod wedi'u harfogi i weithio gyda cham-drin domestig teulu cyfan, gan roi sylw arbennig i'r cysylltiad posibl â hunanladdiad ymhlith plant ac oedolion.<br><br>• Sicrhau cydweithio parhaus rhwng Bwrdd Diogelu Gwent a Bwrdd VAWDASV i wneud y gorau o'n dull amlasiantaethol. | • Mwy o ymwybyddiaeth ar draws yr holl asiantaethau mewn perthynas â defnyddio dull teulu cyfan i ymdrin â cham-drin domestig, yn enwedig mewn perthynas â’r Ddeddf Cam-drin Domestig (2021), ac y gall phlant a phobl ifanc fod yn ddioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain.<br><br>• Gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r risg o hunanladdiad a hunan-niwed i’r holl bartneriaid sy'n gweithio gyda theuluoedd lle mae cam-drin domestig yn gyffredin, mewn cydweithrediad â gwaith yr agenda VAWDASV ranbarthol.<br><br>• Mae'r broses adolygu diogelu unedig sengl yn cael ei gweithredu'n llawn yng Ngwent, gan alluogi i gam-drin domestig fod yn ystyriaeth sylfaenol sy'n ganolog i bob adolygiad diogelu, a bydd hyn yn galluogi dysgu yn y maes hwn. |

## Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd 2 – Amddiffyn yn well y plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio

| Prif ffocws | Beth ydym eisiau ei gyflawni? | Sut allwn ni gyflawni hyn? |
|---|---|---|
| **JSP 2.1 Troseddol / Rhywiol / Ariannol** | • Gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o sut i adnabod ac ymateb i bob math o gamfanteisio.<br><br>• Cefnogi gweithwyr proffesiynol i nodi dulliau, offer a gwasanaethau i ymateb i bob math o gamfanteisio, gan roi ystyriaeth benodol i'r cyd-destun neu'r amgylchedd o amgylch y plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn. | • Darperir hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn ymwneud â phob math o gamfanteisio.<br><br>• Mae’r Bwrdd yn cymeradwyo ac yn hyrwyddo pecyn cymorth neu dempled ymarferwyr rhanbarthol sy'n galluogi dealltwriaeth ac ymatebion effeithiol i gamfanteisio.<br><br>• Mae’r Bwrdd yn cael ei ddiweddaru’n rheolaidd ac yn monitro themâu allweddol sy’n dod i’r amlwg o dueddiadau data rhanbarthol meintiol, mewn perthynas â chamfanteisio ar blant amlasiantaethol. |
| **JSP 2.2 Diogelu trosiannol** | • Datblygu a gwreiddio dull mwy trosiannol o ddiogelu pobl ifanc i dyfu'n oedolion.<br><br>• Cefnogi ymarferwyr i deimlo eu bod wedi'u harfogi i weithio gyda phobl ifanc sy'n nesáu at fod yn oedolion, gan gydnabod yn benodol ffactorau sefyllfaol, cyd-destunol ac amgylcheddol megis niwed ar-lein.<br><br>• Cefnogi ymarferwyr i nodi ac ymateb i anghenion cymhleth pobl ifanc sy'n pontio i fyd | • Mae asiantaethau partner yn gweithio gyda’i gilydd i ddiogelu a chefnogi unigolion yn ystod eu cyfnod pontio i fyd oedolion, mewn ffordd a arweinir gan anghenion, gan gydnabod mai anaml y daw pryderon diogelu i ben pan fydd person yn troi’n 18 oed.<br><br>• Mae'r Bwrdd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ac yn monitro themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o dueddiadau data rhanbarthol meintiol, mewn perthynas â diogelu trosiannol, fel y maent yn dod |

| | | |
|---|---|---|
| | oedolion cynnar, gan gynnwys ffactorau anneuaidd neu drawsryweddol, cam-drin domestig rhieni a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. | i'r amlwg o gynlluniau peilot MACE sydd ar y gweill, i gynnwys pobl ifanc 18-24 oed.<br><br>• Mae anghenion cymhleth a ffactorau sefyllfaol, cyd-destunol ac amgylcheddol i gyd yn cael eu nodi, ac ymatebir iddynt yn effeithiol yn achos plant sy'n symud trwy'r cyfnodau pontio ac i fyd oedolion.<br><br>• Set o egwyddorion ar gyfer pontio sy'n cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd, ac a gaiff eu hyrwyddo gydag asiantaethau partner.<br><br>• Mae enghreifftiau o arloesi diogelu trosiannol yn cael eu rhannu a'u hyrwyddo ar draws ardaloedd lleol a rhanbarthol. |

## Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd 3 – Gwella a chynnal effeithiolrwydd trefniadau diogelu rhanbarthol.

| Prif ffocws | Beth ydym eisiau ei gyflawni? | Sut allwn ni gyflawni hyn? |
|---|---|---|
| **JSP 3.1 Cyfranogiad / llais y defnyddiwr gwasanaeth** | • Sicrhau bod diogelu yn canolbwyntio ar yr unigolyn gyda'r nod o ymgysylltu â'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn mewn perygl, fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed ar bob cam o'r broses ddiogelu.<br><br>• Adeiladu ar y cysylltiadau presennol gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth i ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwell ymgysylltu â dinasyddion, | • Trwy ddefnyddio fforymau presennol a chyfleoedd newydd a ddatblygir ar y cyd, mae nifer cynyddol o blant, pobl ifanc ac oedolion yn cael eu cynnwys, ymgynghorir â nhw, ac maent yn cymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd.<br><br>• Mae'r Bwrdd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ac yn monitro themâu allweddol |

| | | |
|---|---|---|
| | ymgynghori a chynnwys yng ngwaith y Bwrdd Diogelu.<br><br>• Canfod cyfleoedd newydd ar gyfer ymgysylltu a chyfranogiad effeithiol gyda phlant ac oedolion yn ein cymunedau er mwyn sicrhau bod llais y dinesydd yn llywio gwaith y Bwrdd Diogelu. | sy'n dod i'r amlwg o dueddiadau data rhanbarthol meintiol, mewn perthynas ag esgeulustod ymhlith plant ac oedolion.<br><br>• Defnyddia'r partneriaid ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion drwy gydol y broses ddiogelu.<br><br>• Mae adroddiadau blynyddol gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) a Chydlynwyr Diogelu Plant yn amlygu profiadau plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n ymwneud â'r broses ddiogelu. |
| **JSP 3.2 Gwytnwch y gweithlu – gallu, cymhwysedd a hyder** | • Cynnal ymwybyddiaeth, ceisio sicrwydd a chwmpasu atebion gyda phartneriaid mewn perthynas â heriau recriwtio a chadw gweithlu.<br><br>• Cynnal ymwybyddiaeth, ceisio sicrwydd a chwmpasu atebion gyda phartneriaid mewn perthynas â'r heriau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth newydd a'i heffaith ar ddarparu gwasanaethau.<br><br>• Alinio'r ddarpariaeth hyfforddiant bresennol gyda'r Safonau a Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol.<br><br>• Nodi cyfleoedd i sicrhau bod ymarferwyr yn teimlo eu bod wedi'u harfogi i weithio gyda phlant, pobl ifanc, | • Deialog gyson sy'n canolbwyntio ar atebion rhwng partneriaid y Bwrdd mewn perthynas â heriau recriwtio/ cadw gweithlu ac effaith y ddeddfwriaeth sydd ar y gweill.<br><br>• Cydweithio effeithiol gyda phartneriaethau rhanbarthol perthnasol er mwyn cefnogi a chymeradwyo meysydd blaenoriaeth ar y cyd mewn perthynas â gwytnwch gweithlu, gan gynnwys y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu Rhyddid.<br><br>• Mae darpariaeth hyfforddiant diogelu yn cydymffurfio â'r Safonau a'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol. Mae |

| | | |
|---|---|---|
| | rhieni a theuluoedd lle ceir salwch ffug/ysgogedig ac anafiadau nad ydynt yn ddamweiniol.<br><br>• Cefnogi partneriaid i hyrwyddo diwylliant proffesiynol chwilfrydig o fewn eu hasiantaethau, sy'n galluogi ymarferwyr i deimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu cefnogi, ac yn hyderus yn eu harferion diogelu. | gwerthusiadau hyfforddiant arferol yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd.<br><br>• Dylai arolygon gweithlu mewn perthynas â chapasiti, cymhwysedd a hyder roi sicrwydd i'r Bwrdd.<br><br>• Sicrheir partneriaid bod canllawiau, hyfforddiant ac adnoddau ar gael i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt weithio gyda salwch ffug/ysgogedig, anafiadau nad ydynt yn ddamweiniol a ffactorau galluedd meddyliol.<br><br>• Mae asiantaethau partner yn dangos diwylliant agored a chefnogol o fewn eu sefydliadau sy'n annog myfyrio, adolygu a dysgu. |
| **JSP 3.3<br>Tlodi** | • Cynnal ymwybyddiaeth, ceisio sicrwydd a chydweithio â phartneriaid o ran yr heriau sy'n gysylltiedig â thlodi a'i effaith ar deuluoedd, darparu gwasanaethau a llesiant staff.<br><br>• Nodi cyfleoedd i ragfynegi a lliniaru, lle bo modd, effaith bosibl tlodi ar deuluoedd, darparu gwasanaethau a llesiant staff. | • Mae partneriaid yn rhagweld, ac yn lliniaru gyda gwasanaethau ataliol, effaith yr argyfwng costau byw ar deuluoedd a'r goblygiadau diogelu cysylltiedig.<br><br>• Mae asiantaethau partner yn rhoi sicrwydd ynghylch sut mae'r argyfwng costau byw a'i effaith ar deuluoedd, darpariaeth gwasanaeth a staff yn cael ei reoli neu ei liniaru. |
| **JSP 3.4<br>Canlyniadau Perfformiad** | • Adolygu trefniadau rheoli perfformiad presennol y Bwrdd, a nodi'n glir ble a sut y gellir dangos perfformiad y Bwrdd a pherfformiad partneriaid fel mater o drefn. | • Sefydlir fframwaith rheoli perfformiad cwbl integredig, gan gynnwys data meintiol ac ansoddol, amlasiantaethol ystyrlon i ddangos arferion rhanbarthol. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Adolygu canlyniadau perfformiad y Bwrdd a'i bartneriaid yn rheolaidd wrth gyflawni'r amcanion a gynhwysir yn y cynllun hwn.<br><br>• Adolygu effeithiolrwydd mesurau a gymerwyd gan bartneriaid y Bwrdd Diogelu, naill ai'n unigol neu ar y cyd, i weithredu amcanion y Bwrdd a gwneud pa bynnag argymhellion y gwêl yn dda i'w gwneud i'r cyrff hynny yng ngoleuni adolygiad o'r fath. | • Yn dilyn eu hadolygiad o fyrddau diogelu rhanbarthol yng Nghymru, i sicrhau bod adborth AGC ar drywyddau ymholi pellach posibl yn cael ei integreiddio i drefniadau adrodd ar berfformiad rhanbarthol y Bwrdd. Mae hwn yn nodi sut y dylai Byrddau geisio sicrwydd ynghylch y trefniadau sydd ar waith i oruchwylio ansawdd ac effeithiolrwydd arfer amddiffyn plant aml-asiantaeth.<br><br>• Cynllun gweithredu, sy'n adolygu'n rheolaidd y gweithgareddau a osodwyd yn erbyn y blaenoriaethau a'r meysydd ffocws a restrir fel rhan o'r cynllun hwn, er mwyn sicrhau bod perfformiad yn cael ei gynllunio, ei fonitro a'i ddatblygu. |

# FAINT YDYM NI'N MYND I'W WARIO YN Y FLWYDDYN NESAF?

Mae Bwrdd Diogelu Gwent ar y Cyd yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan asiantaethau partner statudol yn unol â'r fformiwla ariannu a nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg,' y canllawiau sy'n cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nodir rôl Partner Arweiniol y Bwrdd Diogelu yn y canllawiau hyn, ac yng Ngwent, y Partner Arweiniol yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, sy'n gweithredu fel deiliad y gyllideb.

Mae'r cyllid gan asiantaethau partner y Bwrdd yn darparu seilwaith rhanbarthol o staff sy'n gweithio'n agos gyda Chadeiryddion y Bwrdd, partneriaid y Bwrdd Diogelu a chyrff eraill a gynrychiolir ar y Bwrdd, y mae eu pwrpas wedi'i nodi yn y canllawiau uchod, i wneud y canlynol:

- hyrwyddo busnes o ddydd i ddydd mewn perthynas â swyddogaethau craidd y Bwrdd.
- darparu cymorth gweinyddol a sefydliadol ar gyfer gwaith is-grwpiau Bwrdd.
- darparu cymorth gweinyddol a sefydliadol ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â sicrhau ansawdd, hyfforddiant a datblygu staff a'r trefniadau dysgu ac adolygu, gan gynnwys Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl.
- darparu cymorth ar gyfer adolygu perfformiad y Bwrdd ac ar gyfer ei gynllunio ariannol tymor canolig.

Y sefydliad sy'n lletya ar gyfer yr Uned Fusnes hefyd yw'r Partner Arweiniol.

Mae'r Bwrdd yn parhau i ddarparu rhaglen hyfforddi ranbarthol amlasiantaethol helaeth. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o gyrsiau diogelu generig sy'n galluogi mynediad am ddim i ymarferwyr a gwirfoddolwyr ledled y rhanbarth. Maent wedi'u cynllunio i ategu ac ychwanegu gwerth at yr hyfforddiant a ddarperir gan dimau datblygu'r gweithlu yn y rhanbarth. Mae'r canllawiau statudol yn nodi y dylai Byrddau gytuno ar gyllideb fel rhan o'i gynllun ariannol tymor canolig sydd wedyn yn cael ei gyflwyno nes ei fod wedi'i addasu i sicrhau sefydlogrwydd a diogelwch cyllid dros fwy nag un flwyddyn ariannol. Mae'r costau disgwyliedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/2026 sydd ar ddod wedi'u nodi isod:

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm costau** | **£492,273** |
| Costau staff | £ 40,663 |
| Costau rhedeg dydd i ddydd | £ 25,751 |
| Darparu Hyfforddiant Amlasiantaeth ac Adolygiadau Ymarfer Ymgysylltu / Gwefannau a Chyhoeddusrwydd / | £ 46,681 |

| | |
|---|---|
| Digwyddiadau proffesiynol (Gan gynnwys Wythnos Genedlaethol Diogelu) | £ 11,178 |

Yn ogystal, pan fydd cyfraniadau ariannol ychwanegol yn cael eu dyrannu i fyrddau diogelu rhanbarthol i fynd i'r afael ag anghenion rhanbarthol neu genedlaethol, mae'r Partner Arweiniol hefyd yn gweithredu fel deiliad y gyllideb ar gyfer y cronfeydd hynny.

Cydnabyddir nad yw'r adnoddau a ddefnyddir i gefnogi gwaith y Bwrdd Diogelu ar y Cyd wedi'u cyfyngu i gyfraniadau ariannol gan asiantaethau partner statudol. Mae Cadeiryddion Bwrdd Diogelu ar y Cyd Gwent, Aelodau'r Bwrdd Gweithredol, Cadeiryddion Is-grwpiau ac aelodau'n rhoi cryn dipyn o'u hamser proffesiynol i gefnogi'r Bwrdd a'i waith. Mae hyn yn aml yn ychwanegol at eu rolau proffesiynol dynodedig a'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd. Dylai Aelodau'r Bwrdd ddisgwyl cyflwyniad blynyddol gan y sefydliad sy'n lletya ynghylch sut mae cyfraniadau ariannol wedi'u dyrannu a chynigion cyllido yn y dyfodol.

# CYDWEITHIO

Mae gan Fwrdd Diogelu Gwent sylfeini cadarn o hyd o ran cydweithio, sydd wedi'u symbylu yn wyneb yr adfyd a wynebwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd y sylfeini hyn yn sicrhau y gall y Bwrdd barhau i ddod at ei gilydd i rannu cyfleoedd, i ddysgu ac i adnabod datblygiadau arloesol gyda'i gilydd, wrth i bartneriaid o bosibl wynebu hyd yn oed mwy o adfyd dros y blynyddoedd nesaf.

Adlewyrchir ein hanes o gydweithio yn aelodaeth y ddau Fwrdd, sy'n cynnwys nid yn unig y partneriaid statudol a ragnodir yn y canllawiau, ond hefyd ein partneriaid o'r sector gwirfoddol a'r rhai lle mae diogelu yn rhan annatod o'u gwaith. Mae'r dull cynhwysol hwn yn caniatáu i ni gynnwys partneriaid a all ddylanwadu ar yr agenda ddiogelu ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Fel partneriaeth ranbarthol statudol sy'n hunanlywodraethol, mae Bwrdd Diogelu Gwent yn parhau i ymfalchïo mewn perthynas waith agos â nifer o bartneriaethau rhanbarthol eraill, gan gynnwys Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent. Trwy sefydlu cysylltiadau a pherthnasoedd gyda phartneriaethau strategol eraill, gallwn sicrhau bod diogelu yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Hefyd, mae cysylltiad cryf yn parhau gyda'r bartneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Mae ein timau rhanbarthol yn parhau i gydweithio, gan ddarparu swyddogaeth gynghori a chymorth lle bynnag y gallwn a rhannu gwefan gyda'n gilydd.

Mae ein perthynas waith agos i'w gweld o hyd hefyd gyda Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a chyrff a gydnabyddir yn genedlaethol fel Iechyd

Cyhoeddus Cymru a Barnardo's Cymru, ynghyd â'n hasiantaethau gwirfoddoli rhanbarthol, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddoli Gwent (GAVO) a Gwirfoddoli Torfaen (TVA).

Byddwn yn parhau i yrru arferion arloesol yn eu blaenau, fel sy'n amlwg yn ein menter diweddar o ran rhoi'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) cenedlaethol ar waith. Bydd ein hymgysylltiad a chymorth i'r SUSR yn 2025/2026 yn sicrhau y gall Gwent barhau i wella a dysgu o adolygiadau diogelu yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i feithrin ein cysylltiadau â fforymau partneriaeth rhanbarthol eraill. Yn ddiweddar, rydym wedi cryfhau ein perthynas â'r grŵp llywio atal hunanladdiad a hunan-niwed rhanbarthol. Yn ystod Blwyddyn 3, byddwn yn parhau i gryfhau'r perthnasoedd hyn ac yn alinio ein nodau cyffredin wrth weithio gyda hunanladdiad a hunan-niwed ledled Gwent.

Mae ein cadeiryddion Bwrdd Diogelu hefyd yn gadeiryddion nifer o fforymau partneriaeth, ac mae aelodau'r Bwrdd yn sicrhau bod gwaith y grwpiau partneriaeth perthnasol yn cael ei gydnabod a'i adrodd ar lefel Bwrdd.

Mae ein cydweithio â'n partneriaid yn y Bwrdd wedi parhau i fynd o nerth i nerth, wrth i ni ddefnyddio cyfleoedd i gefnogi a dysgu oddi wrth ein gilydd yn ogystal ag i arloesi, gyda manteision gweithio rhithwir yn galluogi mwy o gysylltiadau. Galluogodd ein Sesiwn Ddatblygu ddiweddar gyda chadeiryddion Bwrdd VAWDASV Gwent a Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent i ni gwrdd yn bersonol i ystyried blaenoriaethau cyffredin a chytuno ar ein dull cydweithredol fel rhanbarth.

Rydym yn parhau i werthfawrogi'r cyfle i weithio'n agos gyda'r tîm Diogelu ac Eiriolaeth yn Llywodraeth Cymru a hefyd gydag aelodau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB). Mae'r gynrychiolaeth gyson o'r NISB yng nghyfarfodydd y Bwrdd rhanbarthol a digwyddiadau gweithdai datblygu yn parhau i fod yn werthfawr, o ran hyrwyddo lefelau cryf o gydweithio a chyfathrebu drwy gydol y flwyddyn.

# YMGYSYLLTU A CHYFRANOGIAD

Arweiniodd y pandemig Coronafeirws (COVID-19) at newidiadau arwyddocaol i'r ffyrdd y gwnaeth gwasanaethau a phartneriaid gysylltu ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau. Er bod hyn wedi achosi llawer o heriau i sefydliadau i ddechrau, mae wedi arwain at ddefnyddio gwahanol blatfformau, ffyrdd o weithio a dulliau o ailymgysylltu, cynnwys a rhyngweithio â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth. Mae gennym ffocws sylweddol ar y flaenoriaeth hon o hyd wrth i ni symud i Flwyddyn 3.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar y cysylltiadau presennol ac arloesi gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd newydd ar draws y rhanbarth i gael gwell ymgysylltiad, ymgynghori a chyfranogiad dinasyddion, er mwyn sicrhau bod llais y dinesydd yn llywio gwaith y Bwrdd Diogelu. Rydym yn bwriadu sicrhau bod diogelu yn canolbwyntio ar yr unigolyn gyda'r nod o ymgysylltu â'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn sy'n wynebu risg fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed ar bob cam o'r broses ddiogelu. Mae Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd 3.1 yn nodi'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni mewn perthynas â hyn, ac mae'r cynllun gweithredu yn nodi gweithgareddau penodol, amserlenni a manylion i bartneriaid ac aelodau'r is-grŵp eu hystyried.

Rydym yn cydnabod bod angen dewisiadau amgen i'r dulliau mwy traddodiadol o ymgysylltu, ymgynghori a chymryd rhan er mwyn darparu ehangder dewis a hygyrchedd. Er mwyn i ni allu cadw mewn cysylltiad â'r rhai sydd â'r farn bwysicaf, rydym yn parhau i weithio i'n strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu, sy'n nodi ei gweledigaeth fel a ganlyn:

- Creu a chynnal 'cymunedau ymarfer' diogelu rhanbarthol ymhlith ymarferwyr, a chydweithio gwell rhwng yr holl asiantaethau/ rhanddeiliaid.
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion a phryderon diogelu penodol, a sut/ ble i gael cymorth a gwybodaeth.
- Darparu cyfleoedd rheolaidd i ymarferwyr lywio gwaith cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth Bwrdd Diogelu Gwent.
- Darparu cyfleoedd i'r cyhoedd gyfranogi ac ymgysylltu, er mwyn i leisiau dinasyddion Gwent gael eu clywed a helpu i lunio'r gwaith cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth.
- Cefnogi mentrau ymgysylltu cyhoeddus ychwanegol lle bo angen, yn unol â gwaith ehangach Bwrdd Diogelu Gwent.

Bwriadwn barhau i sicrhau bod ein his-grŵp pwrpasol yn cael y gefnogaeth fwyaf priodol, arbenigol i rolau cyfranogiad ar draws ein rhwydwaith partneriaeth. Hefyd, byddwn yn parhau i archwilio'r dulliau digidol presennol a allai fod ar gael i ni, gan ein galluogi i ddarparu platfformau hygyrch i bob dinesydd a defnyddiwr gwasanaeth.

Bydd hyn yn ein galluogi i wneud y mwyaf o gyfleoedd i gyrraedd rhanddeiliaid, cymunedau a dinasyddion, a all ein hysbysu am y themâu diogelu mwyaf perthnasol ar eu cyfer.

Mae Bwrdd Diogelu Gwent yn ymdrechu i ystyried lleisiau’r rhai y mae’n ceisio’u hamddiffyn a’u cefnogi, ac mae’n parhau i hyrwyddo nifer o ddulliau o wneud hynny. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi parhau i ddefnyddio’r nifer uchel o ymwelwyr rhithwir y mae ein digwyddiadau ar-lein yn eu darparu i gynnal gwerthusiadau ac arolygon ar amrywiaeth o faterion yng Ngwent. Mae hyn yn ein cynorthwyo i barhau i dargedu grwpiau o ymarferwyr i ganfod pa mor effeithiol neu ystyrlon yw ein gwaith iddyn nhw fel rhanddeiliaid.

Mae ein Fforymau Rhwydwaith Diogelu Lleol yn sicrhau bod barn a phrofiadau ymarferwyr a gwirfoddolwyr yn parhau i lywio elfennau mwy ymarferol gwaith y Byrddau. Mae ein digwyddiadau i ymarferwyr yn ein galluogi i ddathlu ymarfer llwyddiannus a phrosesau gwaith effeithiol i gynulleidfaoedd eang, gan hefyd gyfeirio ymarferwyr at ein gwefan a darparu hyfforddiant. Rydym yn bwriadu parhau â'r ffurf hon o ymgynghori i lywio ein gwaith yn y dyfodol.

Rydym yn parhau i weithio’n galed i sicrhau yr ymgynghorir yn llawn â’n partneriaid pan fyddwn yn datblygu polisïau neu weithdrefnau newydd, ac mae gennym fecanwaith cadarn y gellir ymddiried ynddo ar gyfer sicrhau bod y broses ymgynghori hon yn rhan annatod o gymeradwyo ein dogfennau.

# GWYBODAETH GYSWLLT A CHYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Mae gan bawb ddyletswydd i fod yn effro i bryderon ynghylch cam-drin ac esgeulustod pobl, a gwybod i bwy y dylent roi gwybod am eu pryderon.

Os ydych chi'n poeni bod plentyn neu oedolyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, mae'n rhaid i chi adrodd eich pryderon i'ch cyswllt Gwasanaethau Cymdeithasol lleol. Rhestrir y manylion isod:

**Caerffili:**
Pryderon am oedolyn:
Ffôn: 0808 100 2500

Pryderon am blentyn:
Ffôn: 0808 100 1727

**Sir Fynwy:**
Pryderon am oedolyn:
Ffôn: 01873 735 492

Pryderon am blentyn:
Ffôn: 01291 635669

**Blaenau Gwent:**
Ffôn: 01495 315700

**Torfaen:**
Ffôn: 01495 762200

**Casnewydd:**
Ffôn: 01633 656656

**Ar ôl 5pm ac ar benwythnosau a gwyliau banc, cysylltwch â Thîm Dyletswydd Argyfwng De Ddwyrain Cymru ar 0800 328 4432.**

**Os ydych chi'n meddwl bod person mewn perygl uniongyrchol, yna cysylltwch â'r Heddlu ar 999.**

Os bydd rhywun yn dweud rhywbeth wrthych sy'n peri pryder i chi, gwrandewch yn ofalus a dywedwch y bydd angen i chi rannu'r wybodaeth hon.

*Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb*

I gael rhagor o wybodaeth am ddiogelu pobl ewch i:

**www.gwentsafeguarding.org.uk**